WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Gwella Blynyddol 2014-15

# Cyngor Sir Ddinbych

Cyhoeddwyd: Gorffennaf 2015
Cyfeirnod y ddogfen: 358A2015



Paratowyd yr Adroddiad Gwella Blynyddol hwn ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Huw Lloyd Jones a Gwilym Bury dan gyfarwyddyd Jane Holownia.


**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**


Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth a chaiff ei benodi gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Caiff Swyddfa Archwilio Cymru ei dwyn i gyfrif gan y Cynulliad Cenedlaethol.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, y gwasanaeth prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae hefyd yn cynnal astudiaethau o werth am arian yng nghyswllt llywodraeth leol ac yn asesu'r graddau y cydymffurfir â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddi ac sy'n gysylltiedig â hi, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Nod yr Archwilydd Cyffredinol a staff Swyddfa Archwilio Cymru yw darparu adroddiadau cymesur, sy'n canolbwyntio ar y cyhoedd, ynghylch y modd y caiff adnoddau cyhoeddus eu gwarchod, ac wrth wneud hynny, meithrin dealltwriaeth a hyrwyddo gwelliannau.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Adroddiad cryno | 4 |
| Diben yr adroddiad hwn | 4 |
| Parhaodd y Cyngor i wneud cynnydd wrth gyflawni gwelliannau ym mhob un o'i amcanion blaenoriaeth ac mae ei hanes o gyflawni ei amcanion ariannol yn golygu ei fod mewn sefyllfa dda i sicrhau gwelliant parhaus yn 2015-16 | 5 |
| Gwaith archwilio ac arolygu perfformiad 2014-15 | 5 |
| Penawdau - crynodeb o'r prif ganfyddiadau | 7 |
| Argymhellion a chynigion ar gyfer gwella | 9 |
| Adroddiad manwl | 10 |
| Perfformiad | 11 |
| Y Defnydd o Adnoddau | 20 |
| Llywodraethu | 23 |
| Atodiadau | |
| Atodiad 1 – Statws yr adroddiad hwn | 25 |
| Atodiad 2 – Archwiliad o Gynllun Gwella 2014-15 Cyngor Sir Ddinbych | 26 |
| Atodiad 3 – Archwiliad o asesiad Cyngor Sir Ddinbych o Berfformiad 2013-14 | 28 |
| Atodiad 4 – Llythyr Archwilio Blynyddol | 30 |
| Atodiad 5 – Argymhellion adroddiadau cenedlaethol 2014-15 | 32 |
| Atodiad 6 – Gwybodaeth am adnoddau Cyngor Sir Ddinbych | 37 |

# Adroddiad cryno

## Diben yr adroddiad hwn

1 Bob blwyddyn, mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol archwilio trefniadau cynllunio ac adrodd ar welliant cynghorau, awdurdodau tân ac achub ac awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru, ac asesu a fydd pob awdurdod yn cyflawni dyletswyddau statudol yn ymwneud â gwelliant parhaus[1]. Cyflawnwyd y gwaith hwn ar ran yr Archwilydd Cyffredinol gan staff Swyddfa Archwilio Cymru. Mae Atodiad 1 yn rhoi rhagor o wybodaeth am bwerau a dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o fewn llywodraeth leol.

2 Yn ogystal, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnal asesiad corfforaethol trylwyr ym mhob awdurdod ar sail gylchol (unwaith bob pedair blynedd o leiaf ar hyn o bryd). Yn y cyfamser, yn ogystal ag archwilio trefniadau cynllunio ac adrodd ar welliant, bydd Swyddfa Archwilio Cymru, ar ran yr Archwilydd Cyffredinol, yn olrhain datblygiadau ac yn cyflawni gwaith asesu pellach sy'n canolbwyntio ar nifer o themâu allweddol, a ddatblygir mewn trafodaeth â phob awdurdod.

3 Mae'r Adroddiad Gwella Blynyddol hwn yn crynhoi'r gwaith archwilio a wnaed yng Nghyngor Sir Ddinbych (y Cyngor) ers cyhoeddi'r adroddiad diwethaf o'r fath ym mis Ebrill 2014. Mae'r Adroddiad Gwella Blynyddol hefyd yn cynnwys crynodeb o ganfyddiadau allweddol o adroddiadau a llythyrau a gyhoeddwyd gan 'reoleiddwyr perthnasol', sef; Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC); Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (Estyn); a Chomisiynydd y Gymraeg. Serch hynny, nid yw'r adroddiad hwn yn adolygiad cynhwysfawr o holl drefniadau neu wasanaethau'r Cyngor. Mae'r casgliadau a geir yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar y gwaith a gyflawnwyd o fewn y Cyngor gan y rheoleiddwyr perthnasol ac, oni nodir fel arall, yn adlewyrchu'r sefyllfa ar yr adeg pan gafodd gwaith o'r fath ei gwblhau.

4 Gan ystyried y gwaith a gyflawnwyd yn ystod 2014-15, mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi darparu 'Casgliad Cyffredinol' yn yr adroddiad gwn (gweler tudalen 6) o ran p'un a yw o'r farn bod y Cyngor yn debygol o wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2015-16.

5 Ni ddylid ystyried bod y casgliad hwn yn rhoi datganiad pendant am sefyllfa sefydliad nac yn rhagfynegi ei lwyddiant yn y dyfodol. Yn hytrach, dylid ystyried ei fod yn rhoi barn am y graddau y mae'r trefniadau sydd ar waith ar hyn o bryd yn rhesymol gadarn i'r graddau y gellir nodi hynny ar sail y gwaith a gyflawnwyd.

6 Rydym am wybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac a yw'n hawdd ei ddeall. Gallwch fynegi eich barn drwy anfon e-bost atom yn post@archwilio.cymru neu ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ.

1 Nodir dyletswyddau a gofynion ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur).

## Parhaodd y Cyngor i wneud cynnydd wrth gyflawni gwelliannau ym mhob un o’i amcanion blaenoriaeth ac mae ei hanes o gyflawni ei amcanion ariannol yn golygu ei fod mewn sefyllfa dda i sicrhau gwelliant parhaus yn 2015-16

7 Mae’r Archwilydd Cyffredinol wedi seilio’r casgliad hwn ar waith archwilio perfformiad a wnaed yn ystod y flwyddyn gan Swyddfa Archwilio Cymru a gwaith arolygu rheoleiddwyr eraill. Ceir crynodeb o’r prosiectau a gynhaliwyd, ynghyd â’r canfyddiadau, yr argymhellion a/neu’r cynigion ar gyfer gwella a ddeilliodd ohonynt, isod.

## Gwaith archwilio ac arolygu perfformiad 2014-15

8 Wrth bennu’r amrywiaeth o waith i’w gyflawni, gwnaethom ystyried graddau’r wybodaeth archwilio ac arolygu a gasglwyd yn ogystal â ffynonellau eraill o wybodaeth a oedd ar gael, gan gynnwys systemau adolygu a gwerthuso’r Cyngor ei hun. Ar gyfer 2014-15, cynhaliodd Swyddfa Archwilio Cymru waith asesu gwelliant o dan dair thema: Perfformiad, Y Defnydd o Adnoddau a Llywodraethu. Roedd y prosiectau unigol a gynhaliwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru a’r rheoleiddwyr eraill yn ystod y flwyddyn yn cynnwys y canlynol:

| Enw’r Prosiect | Disgrifiad byr | Dyddiadau cyflawni'r gwaith |
|---|---|---|
| **Swyddfa Archwilio Cymru - Adolygiad cynllunio ariannol** | Asesiad o sefyllfa ariannol y Cyngor a sut mae'n cyllidebu ac yn cyflawni arbedion gofynnol. | O fis Gorffennaf hyd at fis Tachwedd 2014 |
| **Swyddfa Archwilio Cymru - Archwiliad o Gynllun Gwella'r Cyngor** | Asesiad o ran p'un a yw'r Cyngor yn cydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer cyhoeddi ei Gynllun Gwella. | O fis Ebrill hyd at fis Mehefin 2014 |
| **Swyddfa Archwilio Cymru - Archwiliad o Adroddiad ar Berfformiad y Cyngor** | Asesiad o ran p'un a yw'r Cyngor yn cydymffurfio â gofynion Llywodraeth Cymru ar gyfer cyhoeddi ei Adroddiad ar Berfformiad. | O fis Hydref hyd at fis Tachwedd 2014 |
| **Swyddfa Archwilio Cymru - Adolygiad dilynol o'r trefniadau ar gyfer tai fforddiadwy** | Asesiad o'r cynnydd a wnaed o ran y trefniadau ar gyfer darparu tai fforddiadwy. | O fis Hydref hyd at fis Rhagfyr 2014 |

| Enw’r Prosiect | Disgrifiad byr | Dyddiadau cyflawni'r gwaith |
|---|---|---|
| **Swyddfa Archwilio Cymru - Adolygiad dilynol o'r trefniadau ar gyfer y gwasanaeth Adnoddau Dynol** | Asesiad o'r cynnydd a wnaed o ran y trefniadau ar gyfer darparu gwasanaeth Adnoddau Dynol y Cyngor. | O fis Hydref hyd at fis Rhagfyr 2014 |
| **Swyddfa Archwilio Cymru - Adolygiad dilynol o'r trefniadau ar gyfer Amcan y Cyngor i Wella'r Economi** | Asesiad o'r cynnydd a wnaed o ran y trefniadau ar gyfer cyflawni Amcan y Cyngor i Wella'r Economi. | O fis Hydref hyd at fis Rhagfyr 2014 |
| **Swyddfa Archwilio Cymru - Adolygiad o drefniadau'r Cyngor ar gyfer dosbarthu Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn** | Asesiad o effeithiolrwydd gwasanaethau'r Cyngor ar gyfer dyrannu, dosbarthu, gweinyddu a defnyddio Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn. | O fis Ionawr hyd at fis Mawrth 2015 |
| **Swyddfa Archwilio Cymru - Adolygiad o drefniadau llywodraethu'r Cyngor ar gyfer rheoli risg** | Asesiad o effeithiolrwydd trefniadau rheoli risg y Cyngor. | Hydref 2014 |
| **AGGCC - Arolygiad o wasanaeth mabwysiadu'r Cyngor** | Asesiad o effeithiolrwydd y gwasanaethau mabwysiadu a ddarperir. | Tachwedd 2013 |
| **AGGCC - Arolygiad o drefniadau diogelu a chynllunio gofal ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac unigolion sy'n gadael gofal sy'n ymddwyn mewn ffordd sy'n eu gwneud yn agored i niwed neu a allai beri risg** | Asesiad o effeithiolrwydd gwasanaethau'r Cyngor ar gyfer plant dros 11 oed sy'n derbyn gofal ac unigolion sy'n gadael gofal y nodwyd eu bod yn agored i niwed a/neu'n ymddwyn mewn ffordd a allai beri risg. | O fis Ebrill hyd at fis Mai 2014 |
| **AGGCC - Arolygiad o Wasanaeth Maethu'r Cyngor** | Asesiad o'r Gwasanaeth a ddarperir gan y Cyngor ac ansawdd bywyd y rheini sy'n derbyn gofal maeth. | Ionawr 2014 |
| **AGGCC – Adolygiad o berfformiad yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol yn 2013-14** | Asesiad o berfformiad Adran Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor. | O fis Ebrill hyd at fis Hydref 2014 |
| **Comisiynydd y Gymraeg - Adolygiad o Gynllun Iaith Gymraeg y Cyngor** | Asesiad o effeithiolrwydd y Cynllun wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg. | O fis Gorffennaf hyd at fis Awst 2014 |

## Penawdau - crynodeb o’r prif ganfyddiadau

9 Mae’r tabl isod yn crynhoi canfyddiadau allweddol gwaith a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru, a’r rheoleiddwyr eraill, yn 2014-15.

| | |
|---|---|
| **Perfformiad** | **Swyddfa Archwilio Cymru** – Mae’r defnydd o safonau perfformiad yn parhau i hyrwyddo diwylliant cyson o uchelgais ym mhob un o wasanaethau’r Cyngor (paragraffau 13 i 16).<br><br>**AGGCC** – Ar y cyfan, mae perfformiad yr adran gofal cymdeithasol yn gryf ond bydd angen cynnal gwerthusiad trylwyr o’r broses o gyflwyno modelau gwaith newydd ar gyfer gwasanaethau plant ac oedolion drwy gydol y flwyddyn nesaf. (paragraffau 17 i 30).<br><br>**Swyddfa Archwilio Cymru** – Cynnydd cyfyngedig a wnaed wrth ymdrin ag achosion o danberfformio wrth ddarparu tai fforddiadwy ond mae’r Cyngor wedi helpu i atal llawer o bobl rhag dod yn ddigartref (paragraffau 31 i 33).<br><br>**Swyddfa Archwilio Cymru** – Mae’r Cyngor wedi gwella perfformiad ei wasanaeth Adnoddau Dynol (paragraffau 34 i 35).<br><br>**Swyddfa Archwilio Cymru** – Bu cynnydd mentrau i gefnogi economi Sir Ddinbych yn anghyson, ond mae trefniadau gwell yn debygol o ategu uchelgeisiau’r Cyngor (paragraffau 36 i 43).<br><br>**Swyddfa Archwilio Cymru** – Mae’r Cyngor yn gwneud cynnydd da wrth ymrwymo ei Daliadau Tai yn ôl Disgresiwn a bydd gwelliannau o ran prosesau monitro ers mis Ebrill 2015 yn helpu i egluro eu heffaith (paragraffau 44 i 48).<br><br>**Comisiynydd y Gymraeg** – Gwnaed cynnydd pellach i wella gallu Cymraeg staff y Cyngor (paragraffau 49 i 51). |

| | |
|---|---|
| **Y defnydd o adnoddau** | **Swyddfa Archwilio Cymru** – Mae gan y Cyngor drefniadau rheoli ariannol da heb unrhyw ddiffygion uniongyrchol (paragraffau 52 i 63). |
| **Llywodraethu** | **Swyddfa Archwilio Cymru** – Mae trefniadau rheoli risg y Cyngor yn gadarn ac yn addas at y diben (paragraffau 64 i 68).<br>**Swyddfa Archwilio Cymru** – Mae'r Cyngor yn llunio gwerthusiadau hyddysg a chytbwys o'i berfformiad (paragraffau 69 i 70). |
| **Archwilio trefniadau cynllunio ac adrodd ar welliant** | **Swyddfa Archwilio Cymru** – Cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol dystysgrifau archwilio yn nodi bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (Atodiadau 2 a 3). |
| **Archwilio cyfrifon** | **Swyddfa Archwilio Cymru** – Ar 28 Tachwedd 2014, cyflwynodd yr Archwilydd Penodedig Lythyr Archwilio Blynyddol i'r Cyngor. Mae'r Llythyr yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n deillio o'i gyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 fel yr Archwilydd Penodedig a'i gyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio. Cadarnhaodd ei fod wedi cyflwyno barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol y Cyngor ar 30 Medi 2014 (Atodiad 4). |

## Argymhellion a chynigion ar gyfer gwella

10 O ystyried yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir gan y Cyngor a'r heriau y mae'n eu hwynebu, byddai'n anarferol pe na baem wedi dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

a gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella - os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud, mae'n rhaid i'r Cyngor baratoi ymateb i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod gwaith;

b wneud cynigion ar gyfer gwella - os caiff cynigion eu gwneud i'r Cyngor, byddem yn disgwyl iddo weithredu arnynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar yr hyn sy'n digwydd;

c cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi adroddiad a gwneud argymhellion; ac

ch argymell y dylai Gweinidogion Llywodraeth Cymru ymyrryd mewn rhyw ffordd.

11 Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud unrhyw argymhellion ffurfiol i'r Cyngor yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol hwn. Fodd bynnag, mae'n gwneud argymhellion a all fod yn berthnasol i'r Cyngor yn ei Adroddiadau Cenedlaethol ar Lywodraeth Leol. Ceir rhestr o'r argymhellion yn yr adroddiadau a gyhoeddwyd yn ystod 2014-15 yn Atodiad 5. Rydym hefyd yn gwneud dau gynnig ar gyfer gwella yn deillio o'r gwaith a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru yn ystod y flwyddyn:

| Cynigion ar gyfer gwella | |
|---|---|
| Dylai'r Cyngor wneud y canlynol: | |
| C1 | Sicrhau bod rolau a chyfrifoldebau yn glir ar gyfer cyflawni ei amcan o ran tai fforddiadwy newydd. |
| C2 | Adolygu ei arferion gwaith yn erbyn yr argymhellion yn Adroddiadau Cenedlaethol yr Archwilydd Cyffredinol ar Lywodraeth Leol yn 2014-15, fel y'u nodir yn Atodiad 5, a rhoi gwelliannau ar waith fel y bo angen. |

12 Yn ogystal, nododd AGGCC, Estyn a Chomisiynydd y Gymraeg feysydd i'w gwella yn eu hadroddiadau arolygu a'r llythyrau a gyhoeddwyd ganddynt i'r Cyngor yn ystod y flwyddyn. Gellir eu gweld yn www.cssiw.org.uk, www.estyn.gov.uk a www.comisiynyddygymraeg.org.

# Adroddiad manwl



# Perfformiad

## Mae'r defnydd o safonau perfformiad yn parhau i hyrwyddo diwylliant cyson o uchelgais ym mhob un o wasanaethau'r Cyngor

13 Mae'r Cyngor wedi parhau i wrthod proses o bennu targedau sy'n seiliedig ar welliant graddol o gymharu â pherfformiad y flwyddyn flaenorol o blaid proses sy'n seiliedig ar gyflawni'r 'trothwy rhagoriaeth'. Mae trothwyon rhagoriaeth fel arfer yn seiliedig ar sicrhau bod perfformiad y Cyngor ymhlith y chwe chyngor sy'n perfformio orau yng Nghymru. Os yw dros hanner y cynghorau eraill yng Nghymru yn perfformio'n well na Sir Ddinbych, bydd y Cyngor yn ystyried y mater dan sylw fel blaenoriaeth uchel ar gyfer gwella. Mae'r uwch reolwyr yn deall y cysyniad o 'drothwy rhagoriaeth' yn glir ac mae'n helpu i sicrhau lefel gyson o uchelgais ar draws y Cyngor.

14 Gwellodd perfformiad y Cyngor yn 2013-14, gydag 16 o'r 25 o ddangosyddion perfformiad statudol o fewn y chwartel uchaf. Dim ond pedwar o'r 25 o fesurau statudol ar gyfer Cymru gyfan oedd yn y chwartel isaf a pharhaodd y Cyngor i gyflawni gwelliannau ar draws sawl un o'i feysydd gwasanaeth.

15 Daeth ein dau Adroddiad Gwella Blynyddol diwethaf i'r casgliad bod sail gadarn i drefniadau rheoli perfformiad y Cyngor a'u bod yn datblygu'n foddhaol, gydag arweinyddiaeth glir ac effeithiol gan uwch swyddogion a chynghorwyr. Mae hynny'n wir o hyd. Mae'r pwyllgor craffu ar berfformiad a'r cyfarfodydd herio gwasanaethau sefydledig yn cael gwybodaeth o ansawdd cyson am berfformiad ac ar fformat sy'n hawdd ei deall. Yn ogystal â'r cyfarfodydd herio gwasanaethau, mae Cabinet y Cyngor yn adolygu perfformiad bob chwe mis.

16 Er bod nifer gyffredinol y staff wedi lleihau yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, cafwyd gennym fod tîm polisi canolog y Cyngor yn parhau i oruchwylio, cydgysylltu, a rheoli perfformiad yn weithredol. O ganlyniad, mae'r Cyngor wedi gallu parhau i weithredu system rheoli perfformiad gyson a ddeellir yn glir.

## Ar y cyfan, mae perfformiad yr adran gofal cymdeithasol yn gryf ond bydd angen cynnal gwerthusiad trylwyr o'r broses o gyflwyno modelau gwaith newydd ar gyfer gwasanaethau plant ac oedolion drwy gydol y flwyddyn nesaf

17 Canfu AGGCC fod y Cyngor wedi llunio cynllun pum mlynedd i foderneiddio ei wasanaethau cymdeithasol a fydd yn cynnwys trawsnewid patrwm gwasanaethau gofal cymdeithasol, yn ogystal â newid ffurf y gweithlu a gyflogir i ddarparu gofal a chymorth. Cred y Cyngor y bydd y newid diwylliannol hwn yn ei helpu i baratoi ar gyfer rhoi Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ar waith ac ar gyfer darparu gwasanaethau cymdeithasol cynaliadwy. Fodd bynnag, bydd angen cynnal gwerthusiad trylwyr o'r broses o gyflwyno modelau gwaith newydd ar gyfer gwasanaethau plant ac oedolion yn 2013-14 drwy gydol y flwyddyn nesaf.

18 Mae'r Cyngor yn parhau i ymgysylltu'n weithredol â phobl sy'n defnyddio ei wasanaethau a noda AGGCC fod tystiolaeth dda bod safbwyntiau defnyddwyr wedi'u cynnwys mewn gwaith i ddatblygu a gwella gwasanaethau. Er enghraifft, canfu AGGCC fod y Cyngor yn dangos ymrwymiad, creadigrwydd a phragmatiaeth yn ei ymateb i 'Mwy Na Geiriau'[2], gyda thystiolaeth glir o flaengynllunio wedi'i gynllunio i wella ymwybyddiaeth a chynyddu nifer y bobl sy'n defnyddio'r Gymraeg, ac i wella hygyrchedd gwasanaethau cymdeithasol yn yr iaith ofynnol. Cyflwynwyd dulliau gweithredu arloesol er mwyn cefnogi lles emosiynol oedolion ifancach ac oedolion hŷn, gwaith prosiect integredig gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac ymyriadau cynnar i blant a theuluoedd.

19 Yn 2013-14, gwnaed newidiadau staffio sylweddol a oedd wedi'u cynllunio o fewn yr adran. Roedd y rhain yn cynnwys newidiadau ar lefel arweinyddiaeth drwy benodi Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol newydd ac ailstrwythuro timau staff ar gyfer llawer o'r gwasanaethau a ddarperir i blant ac oedolion. Mae'r Cyngor yn wynebu newidiadau demograffig sylweddol o fewn hinsawdd ariannol ansicr. Canfu AGGCC dystiolaeth bwerus fod y Cyngor wedi mabwysiadu dull gweithredu strategol er mwyn ymateb i'r heriau hyn. Mae dull gweithredu'r Cyngor yn cynnwys adolygu gwasanaethau sy'n bodoli eisoes; cyflwyno modelau arfer arloesol; datblygu partneriaethau integredig; ac ystyried y potensial ar gyfer comisiynu rhai gwasanaethau ar sail ranbarthol.

20 Daeth AGGCC i'r casgliad y bu gwelliant wrth ddarparu gofal cymdeithasol i oedolion yn y Sir gyda mentrau newydd yn hyrwyddo annibyniaeth. Yn ystod 2013-14, roedd pwyslais y Cyngor ar sicrhau y gallai mwy o bobl 65 oed a throsodd barhau'n annibynnol. Datblygwyd rhwydweithiau er mwyn helpu pobl ag anghenion cymhleth i aros yn eu cymunedau lleol. Ymhlith yr enghreifftiau, mae rhoi rhaglenni wedi'u targedu ar waith wedi'u cynllunio er mwyn helpu i sicrhau lles emosiynol oedolion hŷn megis 'Men's Sheds' a Phrifysgol y Drydedd Oes, y cynlluniwyd y ddwy ohonynt i atal achosion o unigedd cymdeithasol, annog unigolion i rannu sgiliau a diddordebau a nodi meysydd penodol o help a chymorth.

21 Canfu AGGCC fod gwelliant mewn perfformiad o ran nifer yr adolygiadau a gynhaliwyd o gynlluniau gofal, er bod y galw am adolygiadau hefyd wedi cynyddu. Yn 2013-14, cyflwynodd y Cyngor rota o ymweliadau gan aelodau etholedig ag wyth o wasanaethau'r Cyngor. Siaradodd y cynghorwyr â defnyddwyr gwasanaethau a'r staff sy'n eu helpu cyn cyflwyno adroddiad a rannwyd gyda'r gwasanaeth a chynllun gweithredu a ddatblygwyd i ymdrin ag unrhyw gamau gweithredu yr ystyriwyd eu bod yn briodol.

22 Perfformiodd y Cyngor yn dda hefyd o ran osgoi achosion o oedi wrth ryddhau cleifion o'r ysbyty. Yn 2013-14, dechreuodd y Cyngor drefniadau cyfyngedig ar gyfer gweithio ar benwythnosau gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, gan gynnwys darparu gweithiwr cymdeithasol a gweithwyr cymorth gofal cymdeithasol i gynnig pecynnau gofal i bobl sy'n gadael yr ysbyty, er mwyn gallu eu rhyddhau mewn ffordd ddidrafferth ac amserol. Dim ond 0.5 fesul 1,000 o'r boblogaeth oedd cyfradd yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau'n ymwneud â gofal cymdeithasol ar gyfer pobl 75 oed neu drosodd, a oedd yn sylweddol uwch na chyfartaledd Cymru, sef 4.7.

2 Cyhoeddwyd Mwy na geiriau: Fframwaith Strategol ar gyfer Hyrwyddo'r Gymraeg ym maes Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol' yn 2012 gan Ddirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru. Nod y fframwaith yw sicrhau bod sefydliadau yn cydnabod bod iaith yn rhan annatod o ofal ac y cynigir gwasanaethau yn Gymraeg i'r bobl hynny sydd eu hangen.

23 Parhaodd y Cyngor yn ymrwymedig i hyrwyddo annibyniaeth pobl hŷn a gweithiodd gwasanaeth derbyn ac ail-alluogi'r Cyngor gyda 379 o bobl yn ystod 2013-14, y cafodd 296 ohonynt gymorth i ddychwelyd i'w cartrefi eu hunain o'r ysbyty. Darperir y Gwasanaeth Offer Cymunedol Integredig mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac mae'n darparu amrywiaeth o offer, gan helpu 1,923 o bobl i fyw gartref yn ddiogel, sef cynnydd o 10 y cant o gymharu â'r llynedd. Fodd bynnag, prin oedd y gwelliant yn ystod 2013-14 o ran nifer y bobl sy'n defnyddio taliadau uniongyrchol - opsiwn a fyddai'n galluogi pobl i wneud eu penderfyniadau eu hunain am eu pecynnau gofal a phrynu cymhorthion ac addasiadau.

24 Mae gwaith partneriaeth wedi galluogi'r Cyngor i ddatblygu a darparu gwasanaethau wedi'u hailstrwythuro ac mae hyn wedi gwella ansawdd y gofal a ddarperir yn y sir. Noda AGGCC fod cydberthnasau ag asiantaethau partner yn dda ar lefel unigol a sefydliadol, er bod rhai heriau o ran ymgysylltu'n effeithiol ar lefel strategol â'r strwythurau newydd o fewn y bwrdd iechyd lleol.

25 Nododd AGGCC gynnydd parhaus wrth ddarparu gwasanaethau plant a chanlyniadau cadarn ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Drwy weithredu adnoddau yn seiliedig ar dystiolaeth ac mewn partneriaeth ag ymwelwyr iechyd ymhlith eraill, bu gwelliannau o ran perfformiad prosesau diogelu ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, gyda 94 y cant o adolygiadau ac 89 y cant o ymweliadau statudol yn cael eu cynnal yn brydlon. Mae'r Cyngor yn llwyddo i fodloni terfynau amser o ran plant ar y gofrestr amddiffyn plant, gyda phob adolygiad amddiffyn plant yn cael ei gynnal yn brydlon.

26 Fodd bynnag, nododd AGGCC fod angen sicrhau ffocws o ran dull gweithredu'r Cyngor mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal er mwyn sicrhau y gellir gwella profiadau'r plant a'r bobl ifanc dan sylw a'r canlyniadau cysylltiedig. Mae nifer y plant sy'n derbyn gofal yr oedd cynllun gofal iechyd ar waith ar eu cyfer yn parhau i osod perfformiad y Cyngor ymhlith yr isaf yng Nghymru (38 y cant o gymharu â chyfartaledd cenedlaethol o 81 y cant). Yn 2014, cyflwynodd y Cyngor swydd newydd ar gyfer nyrs llawn amser benodedig ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a nododd welliant a chynnydd sylweddol mewn perthynas â'r dangosydd allweddol hwn yn ystod 2014-15.

27 Ystyriwyd y canlyniadau ar gyfer unigolion sy'n gadael gofal y cyfwelwyd â hwy yn Sir Ddinbych fel rhan o arolygiad AGGCC o blant sy'n derbyn gofal. Yn ôl yr arolygiad, roedd unigolion sy'n gadael gofal wedi nodi rhwystredigaeth o ran y diffyg gwybodaeth a oedd ar gael iddynt am eu hawliau a'u hawliadau - yn arbennig o ran tai a chymorth ariannol - ac hefyd nad oedd y Cyngor yn darparu cyfleoedd galwedigaethol er mwyn i unigolion sy'n gadael gofal gyflawni annibyniaeth economaidd.

28 Bu gostyngiad sylweddol yn y cymwysterau allanol/sgôr pwyntiau cyfartalog (163.9) a gyflawnwyd gan blant 16 oed sy'n derbyn gofal. Er y gallai hyn adlewyrchu nodweddion y garfan benodol ar gyfer 2013-14, dyma'r sgôr isaf a gyflawnwyd gan y Cyngor yn ystod y tair blynedd diwethaf, ac mae'n sylweddol is na'r cyfartaledd cenedlaethol (261.5). Cynyddodd canran y plant sy'n derbyn gofal sy'n newid ysgol o leiaf unwaith, nid dim ond o ganlyniad i newidiadau sy'n gysylltiedig ag oedran, yn 2013-14. Gostyngodd perfformiad hefyd o ran sefydlogrwydd lleoliadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Nododd AGGCC y dylai'r Cyngor geisio deall cefndir y gostyngiad hwn mewn perfformiad ac ymateb iddo. Dylai wrando ar brofiadau'r bobl ifanc, a llunio cynllun rhyngddisgyblaeth ac amlddisgyblaeth clir ar gyfer gwella'r sefyllfa.

29 Yn ystod 2014-15, cynhaliodd AGGCC arolygiad o drefniadau diogelu a chynllunio gofal ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac unigolion sy'n gadael gofal sy'n ymddwyn mewn ffordd sy'n eu gwneud yn agored i niwed neu a allai beri risg. Cynhaliwyd yr arolygiad fel rhan o raglen arolygiadau thematig cenedlaethol AGGCC. Nod yr arolygiad cenedlaethol oedd asesu ansawdd y gwaith o gynllunio gofal ledled Cymru a ph'un a oedd yn gwneud y canlynol yn effeithiol:

- a yn cefnogi ac yn diogelu plant sy'n derbyn gofal ac unigolion sy'n gadael gofal;
- b yn nodi ac yn rheoli ymddygiad sy'n gwneud plant sy'n derbyn gofal ac unigolion sy'n gadael gofal yn agored i niwed ac yn peri risg iddynt;
- c yn hyrwyddo arfer sy'n seiliedig ar hawliau a llais y plentyn;
- ch yn hyrwyddo canlyniadau gwell i blant sy'n derbyn gofal ac unigolion sy'n gadael gofal; ac
- d yn hyrwyddo cydymffurfiaeth â pholisïau a chanllawiau.

30 Gellir dod o hyd i ganfyddiadau arolygiadau'r awdurdodau lleol unigol ac adroddiad trosolwg cenedlaethol AGGCC ar wefan AGGCC http://cssiw.org.uk/our-reports/national-thematic-report/2014/safeguarding-and-care-planning-of-looked-after-children-and-care-leavers/?lang=en

## Cynnydd cyfyngedig a wnaed wrth ymdrin ag achosion o danberfformio wrth ddarparu tai fforddiadwy ond mae'r Cyngor wedi helpu i atal llawer o bobl rhag mynd yn ddigartref

31 Mae'r Cyngor yn cymryd camau i geisio sicrhau cyflenwad digonol o gartrefi fforddiadwy ond mae wedi methu'n gyson â chyrraedd ei dargedau ers 2011 a'i berfformiad yn 2013-14 oedd y perfformiad gwaethaf yng Nghymru. Yn 2013-14, o blith y 2,416 o gartrefi fforddiadwy a adeiladwyd yng Nghymru, dim ond 16 ohonynt a gwblhawyd yn Sir Ddinbych. Dim ond 61 o gartrefi fforddiadwy a gwblhawyd yn Sir Ddinbych yn y ddwy flynedd cyn hynny. Mae'r Cyngor yn cymryd camau i geisio sicrhau cyflenwad digonol o gartrefi fforddiadwy ac mae wedi pennu targed i gwblhau 570 o gartrefi newydd rhwng 2012 a 2017. Fodd bynnag, er y gwnaed cynnydd yn 2014-15, roedd y canlyniad yn is na tharged y Cyngor ar gyfer cartrefi fforddiadwy o hyd, ac amcangyfrifwyd mai 50 o gartrefi a gwblhawyd.

32 Mae’r Cyngor yn cydnabod bod angen iddo wella ei berfformiad ac ad-drefnwyd y gwasanaeth tai yn ddiweddar gyda Phennaeth Cynllunio a Diogelu’r Cyhoedd yn cymryd cyfrifoldeb llawn dros bob agwedd ar ddarparu tai fforddiadwy yn Sir Ddinbych. Mae’r Cyngor yn cydnabod nad yw’r Strategaeth Tai bresennol yn nodi’r rolau a’r cyfrifoldebau dros gyrraedd y targed cartrefi fforddiadwy yn ddigon clir ac mae grŵp Gorchwyl a Gorffen o aelodau etholedig a swyddogion wedi bod yn datblygu strategaeth tai fforddiadwy newydd.

33 Mae Blaenoriaeth Gwella’r Cyngor o ran tai yn ehangach na darparu tai fforddiadwy yn unig. Mae’r Cyngor hefyd yn awyddus i weithio gyda phartneriaid i helpu pobl sy’n ddigartref neu sydd ar fin mynd yn ddigartref. Cymerodd y Cyngor gamau effeithiol i atal digartrefedd yn 2013-14 ac, fel yn y flwyddyn flaenorol, roedd yn y chwartel perfformiad uchaf yng Nghymru. Roedd nifer y teuluoedd a dderbyniwyd yn ddigartref ac y rhoddwyd blaenoriaeth i’w hanghenion ymhlith yr isaf yng Nghymru ac yn sgil hynny, roedd nifer y teuluoedd digartref mewn llety dros dro, ar gyfartaledd, yn is nag mewn cynghorau eraill yng Ngogledd Cymru. Roedd y cyfnod cyfartalog yr oedd teuluoedd digartref yn ei dreulio mewn llety dros dro yn Sir Ddinbych hefyd yn isel ac yn cynrychioli perfformiad chwartel uchaf ymhlith cynghorau yng Nghymru.

## Mae’r Cyngor wedi gwella perfformiad ei wasanaeth Adnoddau Dynol

34 Yn ein Hadroddiad Gwella Blynyddol diwethaf, nodwyd gennym fod gwasanaeth Adnoddau Dynol Corfforaethol y Cyngor wedi gwneud cynnydd cyfyngedig wrth gyrraedd ei dargedau mewnol allweddol yn ystod 2012-13 a chynigiwyd gennym fod angen i’r Cyngor ymdrin â’r gwendidau hyn.  Er enghraifft, bu oedi wrth roi’r system arfarnu staff ddiwygiedig ar waith ac nid oedd yn ymddangos bod trefniadau monitro effeithiol ar waith ar gyfer sicrhau cysondeb wrth ei gweithredu.

35 Mae’r Cyngor wedi ymdrin â’r cynnig hwn ar gyfer gwella i raddau helaeth. Noda gwaith dilynol gan Swyddfa Archwilio Cymru ac adroddiadau dilynol gan y gwasanaeth archwilio mewnol fod cynnydd da bellach yn cael ei wneud wrth ymdrin â meysydd allweddol i’w gwella. Mae gan y gwasanaeth Adnoddau Dynol ddealltwriaeth gliriach o gost y gwasanaeth, a sut mae hyn yn cymharu â chynghorau eraill. Dengys arolygon mewnol diweddar fod lefelau boddhad gyda’r gwasanaeth Adnoddau Dynol Corfforaethol wedi gwella. Mae’r wybodaeth am ganlyniadau a pherfformiad y gwasanaeth Adnoddau Dynol Corfforaethol yn fwy cynhwysfawr ac mae mesurau perfformiad allweddol ar waith ar gyfer y gwasanaeth. Mae’r system arfarniadau newydd bellach yn gwbl weithredol ar draws pob gwasanaeth a chynhelir adolygiadau ansawdd systemataidd ohoni.

## Bu cynnydd mentrau i gefnogi economi Sir Ddinbych yn anghyson, ond mae trefniadau gwell yn debygol o ategu uchelgeisiau'r Cyngor

36 Mae atgyfnerthu economi Sir Ddinbych yn flaenoriaeth uchel i'r Cyngor. Mae chwech o 14 o themâu blaenoriaeth y Cyngor yn cynnwys cysylltiadau â'r economi leol ac roedd y Cynllun Cyflenwi Blynyddol ar gyfer 2013-14 yn cynnwys rhaglen o weithgareddau amrywiol ac uchelgeisiol a oedd yn anelu at gefnogi'r economi leol. Ddiwedd 2013, mabwysiadodd y Cyngor Strategaeth Uchelgais Economaidd a Chymunedol 10 mlynedd newydd a ddisodlodd rai agweddau ar y Cynllun Cyflenwi gan ganolbwyntio adnoddau ar gyfres gulach o weithgareddau a oedd yn gysylltiedig â'r economi. Mae'r newidiadau hyn, ynghyd ag ymdrech ychwanegol yn ystod y flwyddyn i ailflaenoriaethu mentrau sy'n gysylltiedig â'r economi, yn ei gwneud hi'n anodd cymharu cynnydd a pherfformiad yn ystod 2013-14 yn erbyn bwriadau gwreiddiol y Cyngor.

37 Serch hynny, gwnaeth y Cyngor gynnydd da gyda rhai o'i weithgareddau diwygiedig yn gysylltiedig â'r economi, ond roedd ei berfformiad cyffredinol yn ystod 2013-14 yn anghyson. O'r chwe thema blaenoriaeth dan sylw, asesodd y Cyngor fod statws tair ohonynt ar ddiwedd y flwyddyn yn 'Dderbyniol' a nododd fod un yn 'Dda'. Nodwyd statws 'Anhysbys' ar gyfer y ddwy flaenoriaeth arall gan nad oedd y data yr oedd eu hangen i asesu cynnydd ar gael eto. Mae'r Cyngor yn disgwyl y bydd data mwy cynhwysfawr ar gael o 2014-15 ymlaen er mwyn helpu i ddangos effaith ei weithgareddau. O'r 15 o fentrau lle y cynhaliwyd gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r economi yn ystod 2013-14, roedd wyth ar y trywydd cywir, ond roedd saith ar ei hôl hi.

38 Roedd gan rai o'r gweithgareddau a gwblhawyd neu a oedd ar y trywydd cywir yn ystod 2013-14 - megis gwaith ymchwil i gyfleoedd ar gyfer mentrau cymdeithasol - broffil cymharol isel, ond roedd eraill yn amlwg iawn. Er enghraifft, roedd amrywiaeth o brosiectau adeiladu mewn perthynas â rhaglen Rhyl yn Symud Ymlaen ar waith neu wedi'u cwblhau yn ystod 2013-14, gan gynnwys pont eiconig newydd dros yr harbwr i feicwyr a cherddwyr ac adeiladu gwesty ar safle'r Honey Club gynt yn y Rhyl.

39 Yn gyffredinol, cafodd 16 o'r 31 o weithgareddau a oedd yn gysylltiedig â'r Strategaeth Uchelgais Economaidd a Chymunedol y bwriadwyd eu cyflawni yn 2013-14 naill ai eu tynnu'n ôl neu eu gohirio. Tynnwyd rhai gweithgareddau yn ôl gan fod cyfrifoldebau cyflawni wedi newid. Er enghraifft, tynnwyd y cyfrifoldeb dros gynhyrchu achos busnes ar gyfer trydaneiddio rheilffordd arfordir Gogledd Cymru yn ôl gan fod Llywodraeth Cymru bellach yn gyfrifol am gydgysylltu'r achos busnes. Gohiriwyd rhai gweithgareddau eraill naill ai gan nad oedd digon o adnoddau ar gael yn ystod 2013-14 neu gan fod angen gwaith ymchwil pellach. Er enghraifft, gohiriwyd pedwar o'r chwe gweithgaredd o fewn thema Gweithlu Medrus o Ansawdd Uchel. O edrych yn ôl, cydnabu'r Cyngor fod angen gwell dealltwriaeth arno o'r sgiliau uwch sydd eu hangen ar gyflogwyr lleol a rhanbarthol cyn teilwra ei hyfforddiant sgiliau.

40 Mae’r Cyngor wedi sefydlu Bwrdd Rhaglen Uchelgais Economaidd a Chymunedol (y Bwrdd) sy’n cynnwys aelodau etholedig ac uwch swyddogion â rolau a chyfrifoldebau sy’n gysylltiedig â’r Strategaeth Uchelgais Economaidd a Chymunedol. Mae’r Bwrdd yn cyfarfod bob mis ac yn rhoi ffocws strategol i’r rhaglen drwy gyfeirio, monitro a chydgysylltu gweithgareddau sy’n gysylltiedig â’r economi. Dylai ffocws disgybledig y Bwrdd ar flaenoriaethau helpu’r Cyngor i gynnal - neu lle bo angen, gynyddu - cyflymder gweithgareddau a lleihau’r tebygolrwydd y bydd prosiectau a rhaglenni yn methu.

41 Yn dilyn adolygiad yn ystod 2014, mae’r Bwrdd wedi atgyfnerthu ei drefniadau ar gyfer rheoli rhaglenni a phrosiectau. Maent bellach yn hyrwyddo dull mwy systemataidd o ddatblygu trefniadau monitro ac adrodd. Mae trefniadau cadarn ar gyfer rheoli rhaglenni a gwell gwybodaeth reoli yn hyrwyddo llywodraethu da a dylai helpu’r Bwrdd i wneud penderfyniadau mwy hyddysg ac amserol.

42 Arweiniodd adolygiad y Bwrdd yn 2014 hefyd at ailstrwythuro’r Tîm Datblygu Economaidd a Busnes er mwyn adlewyrchu’r blaenoriaethau a’r gweithgareddau y disgwylir iddo eu cyflawni. Yn gyffredinol, mae’r Cyngor yn disgwyl i’r ymarfer ailstrwythuro gyfrannu arbedion o tua £200,000 i’r targed arbedion cyllidebol ar gyfer 2016-17.

43 Erbyn diwedd 2013-14, roedd y Cyngor yn obeithiol o ran y rhagolygon tymor hwy ar gyfer ei flaenoriaeth uchelgais economaidd. Roedd hyn oherwydd bod llawer o’r gweithgareddau a gyflawnwyd yn ystod 2013-14 - megis mapio’r lleoliadau twf rhanbarthol er mwyn nodi cyfleoedd yn y gadwyn gyflenwi a chyfleoedd swyddi - yn darparu’r wybodaeth a’r seilwaith gofynnol i dargedu cymorth busnes yn effeithiol. Mae gobaith y Cyngor hefyd yn adlewyrchu gweithgareddau yn ystod 2013 ac ers 2013 i atgyfnerthu’r trefniadau llywodraethu a’r trefniadau rheoli rhaglenni cysylltiedig.

## Mae’r Cyngor yn gwneud cynnydd da wrth ymrwymo ei Daliadau Tai yn ôl Disgresiwn a bydd gwelliannau o ran prosesau monitro ers mis Ebrill 2015 yn helpu i egluro eu heffaith

44 Roedd Deddf Diwygio Lles 2012 yn dynodi newid mawr i’r ffordd y caiff budd-daliadau eu gweinyddu a’u dosbarthu a bydd yn cael effaith sylweddol ar lawer o ddinasyddion. Ym mis Ebrill 2011, dechreuodd Llywodraeth y DU ar raglen ddiwygio a fydd yn arwain at gyflwyno’r Credyd Cynhwysol fesul cam rhwng mis Hydref 2013 a 2017. Un o brif nodweddion cynlluniau Llywodraeth y DU yw’r newidiadau i fudd-dal tai, sy’n ceisio lleihau gwariant blynyddol tua £2.3 biliwn. Bydd y newidiadau hyn yn golygu y bydd miliynau o aelwydydd ym Mhrydain Fawr yn cael llai o fudd-daliadau.

45 Ym mis Ionawr 2015, cyhoeddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru adroddiad ar ba mor dda roedd cynghorau yn rheoli effaith newidiadau diwygio lles ar denantiaid tai cymdeithasol yng Nghymru. Adolygodd yr adroddiad y broses o reoli a defnyddio Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn gan gynghorau yng Nghymru a daeth i’r casgliad fod anghysondebau a gwendidau sylweddol yn y broses o ddyrannu, dosbarthu, gweinyddu a defnyddio’r taliadau hyn. Gwnaethom waith dilynol mewn cynghorau unigol.

46 Canfu ein hadolygiad, yn Sir Ddinbych, fod y Cyngor yn cyfeirio'n glir at Daliadau Tai yn ôl Disgresiwn ar ei wefan a'i fod yn hawdd i gwsmeriaid wneud cais am gymorth. Mae'r ffurflen gais pum tudalen am Daliadau Tai yn ôl Disgresiwn yn cynnwys rhywfaint o wybodaeth ategol am broses gwneud cais y Cyngor er mwyn helpu cwsmeriaid i gwblhau'r ffurflen. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr ddarparu gwybodaeth fanwl am eu hincwm a'u gwariant ac rydym o'r farn y gallai hyn olygu y bydd pobl agored i niwed yn dewis peidio â gwneud cais am Daliadau Tai yn ôl Disgresiwn am eu bod yn ystyried y broses yn feichus ac yn llafurus. Nid oes gan y Cyngor ychwaith unrhyw bolisi mabwysiedig ar gyfer Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn ac nid yw'n glir sut mae'r Cyngor yn defnyddio'r adnoddau hyn er mwyn helpu pobl i leihau effaith newidiadau diwygio lles megis y Cymhorthdal Ystafell Sbâr neu'r cap ar fudd-daliadau.

47 Mae gan y Cyngor systemau ar waith i fonitro'r swm a gaiff ei wario yn erbyn swm yr arian a ddarperir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, a'r gyllideb sy'n weddill i helpu ymgeiswyr. Mae'r Cyngor hefyd yn monitro cyflymder prosesu ceisiadau yn ogystal â nifer y cwsmeriaid sydd wedi cael cymorth. Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor yn monitro nifer y landlordiaid sy'n cael cymorth er mwyn sicrhau bod dosbarthiad da ar draws pob sector ac ardal, ac nid yw ychwaith yn monitro effaith ei Daliadau Tai yn ôl Disgresiwn na sut mae'r adnoddau hyn wedi helpu cwsmeriaid yr effeithiwyd arnynt gan y newidiadau a gyflwynwyd o dan y trefniadau diwygio lles na'u heffaith ar gynnal tenantiaethau. Mae'r Cyngor yn monitro'r rhesymau pam bod ymgeisydd yn gwneud cais am ail Daliad Tai yn ôl Disgresiwn. Erbyn mis Ebrill 2015,roedd y rhan fwyaf o gynghorau yng Nghymru, gan gynnwys Cyngor Sir Ddinbych, wedi gweithredu cytundeb i fabwysiadu dull gweithredu unffurf o ddosbarthu Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn yn y dyfodol, yn rhannol er mwyn ymdrin â'r anghysondebau a'r gwendidau sylweddol a nodwyd yn ein hadolygiad.

48 Ar ddiwedd mis Tachwedd 2014, roedd y Cyngor wedi talu £147,002 allan o'i ddyraniad gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, sef £202,519, sef 72 y cant o'i ddyraniad. Mae hyn yn dangos bod y Cyngor yn ceisio defnyddio Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn er mwyn helpu'r rheini y mae angen cymorth arnynt ond mae angen iddo gysylltu'r Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn â pholisi lles strategol ehangach er mwyn dangos effaith ei waith.

## Gwnaed cynnydd i wella cydymffurfiad â Chynllun Iaith Gymraeg y Cyngor

49 Crëwyd swydd Comisiynydd y Gymraeg gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Daeth pwerau newydd i orfodi safonau ar sefydliadau i rym drwy is-ddeddfwriaeth ar 31 Mawrth 2015. Bydd Comisiynydd y Gymraeg yn parhau i adolygu cynlluniau iaith Gymraeg drwy rinwedd pwerau a etifeddwyd o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

50 Mae'r Comisiynydd yn gweithio gyda phob cyngor yng Nghymru i arolygu cynlluniau iaith a rhoi cyngor ar y broses o'u rhoi ar waith. Mae cyfrifoldeb ar gynghorau i ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg yn unol â'r ymrwymiadau yn eu cynlluniau iaith. Mae'n ofynnol i bob Cyngor ddarparu adroddiad monitro blynyddol i'r Comisiynydd yn amlinellu ei berfformiad wrth weithredu'r cynllun iaith. Mae'r Comisiynydd yn dadansoddi pob adroddiad monitro, yn ymateb yn ffurfiol ac yn casglu rhagor o wybodaeth yn ôl yr angen.

51 Nododd y Comisiynydd fod y Cyngor wedi comisiynu archwiliad annibynnol o'r Gymraeg yn Sir Ddinbych yn ystod 2013-14. Lluniwyd adroddiad a gyflwynodd 90 o argymhellion i'r awdurdod. Mae'r Cyngor yn bwriadu ymateb yn ffurfiol i'r archwiliad yn 2015 a llunio cynllun gweithredu. Mae gan y Cyngor nifer o fentrau eraill perthnasol. Mae wedi nodi meysydd i'w gwella o ganlyniad i adroddiad cwsmer cudd gan Fenter Iaith Sir Ddinbych. Mae'r Cyngor yn bwriadu ffurfioli'r gwaith o fonitro contractau trydydd parti yn ystod 2014-15, gan arwain at adroddiad blynyddol gan yr Adran Prynu. Mae'n bwriadu ehangu'r cynllun mentora ar gyfer dysgwyr Cymraeg er mwyn cynnwys mwy o aelodau o staff. Nod arall yw nodi hyrwyddwyr iaith er mwyn hybu'r Gymraeg ym mhob rhan o'r sefydliad.

# Y Defnydd o Adnoddau

## Mae gan y Cyngor drefniadau rheoli ariannol da heb unrhyw ddiffygion uniongyrchol

52 Mae gan y Cyngor hanes da o gyflawni arbedion a nodwyd o fewn y flwyddyn yn erbyn y camau gweithredu arfaethedig a gymeradwywyd ganddo. Llwyddodd y Cyngor i nodi amrywiaeth o arbedion cylchol ac anghylchol yr oedd angen eu gwneud i wneud iawn am y diffyg cyllidebol rhwng 2011-12 a 2013-14, cynllunio ar eu cyfer a'u cyflawni. Nid oedd unrhyw arbedion nas nodwyd yr oedd angen eu datblygu pan gymeradwywyd cyllidebau 2011-12, 2012-13 a 2013-14 a chyflawnwyd gostyngiadau ac arbedion arfaethedig y Cyngor ym mhob un o'r tair blynedd. Mae fframwaith cynllunio ariannol strategol corfforaethol y Cyngor yn effeithiol ac yn helpu i gyflawni'r gweledigaethau corfforaethol a nodau ac amcanion gwella'r Cyngor.

53 Mae gan y Cyngor nifer o bolisïau sy'n cefnogi ei drefniadau cynllunio ariannol, a nodwyd cyfrifoldebau o ran pennu'r gyllideb, ei monitro ac adrodd arni. Mae gan y Cyngor Gynllun Ariannol Tymor Canolig a groesgyfeirir â'i Amcanion Gwella. Mae'r cynllun yn cwmpasu cyfnod o bum mlynedd. Mae fersiwn 2014 yn nodi sut yr ymdrinnir â'r bwlch sy'n weddill mewn arbedion yn 2015-16 a thu hwnt, er bod diffyg eglurder ynghylch lefelau cyllid gan Lywodraeth Cymru yn y byrdymor a'r tymor canolig yn rhwystro'r Cyngor rhag cynllunio.

54 Dull y Cyngor o bennu ei gyllideb refeniw fu lleihau costau'n gynyddrannol yn seiliedig ar gynigion arbed o wasanaethau a chyllidebau corfforaethol. Mae'r broses wedi llwyddo yn y gorffennol ond mae'r Cyngor yn cydnabod nad yw'n gweithio mwyach. Ar gyfer 2015-16, caiff gwasanaethau eu hadolygu o dan y rhaglen Rhyddid a Hyblygrwydd er mwyn cyflawni targed i arbed £12 miliwn dros y ddwy flynedd nesaf. Dyma'r newid mwyaf arwyddocaol i'r broses gyllidebol a bydd yn canolbwyntio ar yr hyn y mae gwasanaeth yn ei wneud a faint mae'n ei gostio, ac yn ceisio dadansoddi p'un a yw'r gwasanaeth a ddarperir yn statudol, yn gyson â blaenoriaeth gorfforaethol neu'n ddewisol.

55 Mae trefniadau rheoli a rheolaeth ariannol y Cyngor yn gadarn ac maent yn cael eu rheoli'n effeithiol. Mae Rheoliadau Ariannol y Cyngor yn cynnwys adran ar gyllidebau sy'n ymdrin â chynllunio ariannol a chyllidebu; rheolaeth gyllidebol; trosglwyddo a chyllidebau atodol eithriadol. Yr Aelodau sy'n gyfrifol am bennu Cyllideb y Cyngor, yn dilyn cyngor gan Swyddogion y Cyngor. Mae hwn yn gyfrifoldeb statudol. Rhaid i'r Cyngor bennu cyllideb fantoledig a rhaid sicrhau bod digon o arian ar gael yn ystod y flwyddyn ariannol dan sylw i gyfateb i'r lefel gwariant ddisgwyliedig. Bydd yr Aelodau yn penderfynu sut y dyrennir adnoddau rhwng Cyfarwyddiaethau, canolfannau adnoddau a'r polisïau cysylltiedig. Ar y cyd â'r Pennaeth Cyllid ac Asedau, mae Cyfarwyddwyr unigol yn gyfrifol am yr agweddau mwy manwl ar bennu'r gyllideb.

56 Rhoddwyd system rhagamcanu, monitro ac adrodd newydd ar waith. Gelwir hyn yn Cynllunio Cydweithredol. Mae'n sicrhau bod dull mwy cyson o reoli'r gyllideb ar draws y Cyngor drwy goladu gwybodaeth gyllidebol ar system ar-lein a lleihau'r angen i ddefnyddio amrywiol daenlenni o fewn yr adrannau gwasanaeth gwahanol. Mae'r Cabinet yn cael adroddiad misol ar y gyllideb. Mae'r adroddiadau yn dangos yr alldro rhagamcanol ar gyfer y flwyddyn (yn hytrach na'r sefyllfa ar adeg benodol) o gymharu â'r gyllideb wreiddiol. Mae'r adroddiadau hyn yn cynnwys manylion unrhyw amrywiad sylweddol mewn gwariant ynghyd â chamau cywirol.


57 Mae cynlluniau arbedion ac arbedion effeithlonrwydd y Cyngor ar gyfer 2014-15 yn addas at y diben, yn cael eu rheoli'n effeithiol ac yn debygol o gael eu cyflawni. Roedd cynlluniau arbedion effeithlonrwydd wedi'u datblygu ar gyfer 2014-15 ar draws holl adrannau'r Cyngor. Mae'r cynlluniau yn cynnwys disgrifiadau clir o ble y câi'r arbedion eu gwneud. Caiff arbedion arfaethedig eu monitro fel mynegiant o faint o'r arbedion blynyddol a gyflawnwyd hyd yn hyn. Yn ystod y tair blynedd diwethaf, cyflawnwyd dros 90 y cant o'r arbedion gofynnol erbyn diwedd yr ail chwarter. Cyflwynir adroddiadau ar y gyllideb bob chwe mis i'r Cyngor llawn gydag unrhyw ddiffygion mewn arbedion yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet yn y cyfarfod nesaf o'r Cyngor llawn.

58 Mae Cynllun Arbedion y Cyngor ar gyfer 2014-15 yn rhoi sylw priodol a pherthnasol i'r pwysau ariannol sy'n wynebu'r Cyngor yn y dyfodol. Er gwaethaf setliad grant heriol iawn gan Lywodraeth Cymru, pennodd y Cyngor gyllideb fantoledig ar gyfer 2014-15 a oedd yn cynnwys cynnydd o 3.5 y cant yn y dreth gyngor ac arbedion o £8.5 miliwn. Mae'r Cyngor hefyd yn nodi arbedion effeithlonrwydd pellach ac yn blaenoriaethu toriadau posibl i wasanaethau.

59 Mae'r Cyngor yn rhagweld y bydd angen arbedion ychwanegol o £17.1 miliwn i leiaf yn ystod 2015-16 a 2016-17. Wrth bennu ei gyllideb ar gyfer 2015-16, nododd y Cyngor arbedion o £7.3 miliwn, cynyddodd y Dreth Gyngor dri y cant ac ariannodd y diffyg a oedd yn weddill, sef £0.5 miliwn, o gronfeydd cyffredinol.

60 Mae Arddangosyn 1 isod yn cymharu gwariant refeniw gros arfaethedig y Cyngor (heb gynnwys incwm) fesul pen o'r boblogaeth yn ystod y pedair blynedd diwethaf â'r cyfartaledd ar gyfer cynghorau ledled Cymru.

Arddangosyn 1 – Gwariant refeniw gros (heb gynnwys incwm) fesul pen o'r boblogaeth




*Ffynhonnell: StatsCymru*

61 Dengys y graff fod gwariant y pen yn Sir Ddinbych yn sylweddol uwch na chyfartaledd Cymru ym mhob un o'r tair blynedd cyn 2014-15. Mae hyn yn adlewyrchu'n bennaf ffactorau megis amddifadedd a natur wledig sy'n dylanwadu ar fformiwla dosbarthu Llywodraeth Cymru ar gyfer y Grant Cynnal Refeniw. Fodd bynnag, datgelodd Cyfrifiad 2011 hefyd fod rhagamcanion blaenorol o'r boblogaeth, y seiliwyd lefelau ariannu arnynt, wedi goramcangyfrif poblogaeth Sir Ddinbych. O ganlyniad, ymddengys fod gwariant y pen wedi cynyddu llawer mwy na'r cynnydd yng nghyfartaledd Cymru ers 2012-13. Ers 2011-12, cyfrifwn fod gwariant y pen wedi cynyddu dau y cant mewn termau real yn Sir Ddinbych o gymharu â gostyngiad o dri y cant ar gyfartaledd ledled Cymru.

62 Fel rhan o Atodiad 6, rydym wedi cynnwys rhywfaint o wybodaeth am y ffordd y cafodd adnoddau ariannol y Cyngor eu dosbarthu yn 2013-14 ac am y tueddiadau yng ngwariant ac incwm refeniw gros y Cyngor ers 2008-09. Daw'r data o Ddatganiadau o Gyfrifon y Cyngor.

63 Fel ym mhob cyngor, caiff cyfran uchel o wariant y Cyngor ei neilltuo i gostau addysg a gofal cymdeithasol. Daw ychydig llai na hanner ei incwm gros ar gyfer 2013-14 o'r Grant Cynnal Refeniw (36.8 y cant) ac Ardrethi Annomestig (8.7 y cant). Nid oes gan y Cyngor unrhyw reolaeth dros y ffynonellau incwm hyn, ac mae'r Grant Cynnal Refeniw yn lleihau. Roedd incwm o Ardrethi Annomestig, sef 8.7 y cant o gyfanswm yr incwm, yn gyfran is na'r cyfartaledd o gyfanswm yr incwm. Yn Sir Ddinbych, roedd 'incwm arall' (gan gynnwys ffioedd a thaliadau) yn cynrychioli 39 y cant o incwm y Cyngor ar gyfer 2013-14, ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru, sef 37 y cant.

# Llywodraethu

## Mae trefniadau rheoli risg y Cyngor yn gadarn ac yn addas at y diben

64 Mae trefniadau rheoli risg yn parhau i gael eu hatgyfnerthu, gyda Phenaethiaid Gwasanaeth, y Cabinet a'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn chwarae rhan weithredol. Mae'r grwpiau amrywiol hyn oll yn cydweithio i ddeall a rheoli risg, gan alluogi blaengynlluniau gwaith er mwyn sicrhau bod gan y pwyllgor craffu a'r Cabinet ffocws cryf ar ymdrin â materion sy'n ymwneud â risg.

65 Mae'r Cyngor wedi cydnabod pwysigrwydd rheoli risg ac mae cofrestr risg gorfforaethol gyda chanllawiau ategol ar waith. Nodir risgiau allweddol a chânt eu hasesu fel risgiau uchel, canolig neu isel. Mae'r Cyngor wedi cymeradwyo'r strategaeth rheoli risg a'r gofrestr risg gorfforaethol ac mae'n eu hystyried wrth ddyrannu adnoddau. Mae'r Cabinet wedi cytuno y dylai ystyried diweddariadau i'r gofrestr risg gorfforaethol bob chwe mis. Mae meysydd gwasanaeth unigol yn llunio eu cofrestrau risg eu hunain, y maent yn eu hystyried ochr yn ochr â'u cynlluniau gwella gwasanaeth.

66 Ystyrir bod rheoli risg yn flaenoriaeth uchel ym mhob maes gwasanaeth a chaiff risgiau eu rheoli ar lefel prosiect ac ar lefel gorfforaethol. Mae'r gofrestr risg gorfforaethol yn cynnwys amserlen sy'n cwmpasu'r cyfnod pan allai'r risgiau aeddfedu. Mae'r broses o fonitro sut mae pob gwasanaeth yn rheoli ei risgiau yn gyson ac mae'r trefniadau o ran atebolrwydd yn glir. Caiff risgiau eu rheoli'n dda ar brosiectau unigol mawr a chânt eu rheoli'n uniongyrchol gan y pennaeth gwasanaeth os ystyrir bod risg gorfforaethol ychwanegol uwch.

67 Caiff pob penderfyniad a wneir ei ddogfennu, gan gynnwys achosion lle y penderfynir peidio â chynnwys risgiau lefel isel ar y cofrestrau, ond nid yw'r system ar-lein newydd ar gyfer monitro'r trefniadau rheoli risg wedi bod yn destun profion gan y gwasanaeth Archwilio Mewnol eto er mwyn cadarnhau bod llwybrau archwilio a rheolaethau digonol ar waith a'u bod yn gweithio. Nid yw'r strategaeth rheoli risg yn dynodi'r amledd gofynnol ar gyfer adolygu cofrestrau risg lefel gwasanaeth ac nid yw'n glir ar lefel gwasanaeth a yw pob cofrestr yn cael ei hadolygu yr un mor rheolaidd.

68 Mae Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol y Cyngor yn chwarae rhan briodol wrth sicrhau bod prosesau priodol ar waith ar gyfer nodi a rheoli risgiau er mwyn hwyluso ei rôl a helpu i ddatblygu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn nodi'n glir sut y caiff risgiau eu rheoli a'u monitro. Mae prosesau ar waith i gofnodi risgiau newydd a dderbynnir ond nid oes unrhyw archwiliadau gorfodol i sicrhau bod cofrestrau risg pob gwasanaeth wedi ystyried p'un a oes angen i'r Cabinet ystyried cynnwys unrhyw risgiau gwasanaeth fel risg gorfforaethol.

## Mae’r Cyngor yn llunio gwerthusiadau hyddysg a chytbwys o’i berfformiad

69 Mae trefniadau Herio Gwasanaeth y Cyngor yn parhau i ddarparu datganiadau sefyllfa cynhwysfawr a manwl i Aelodau etholedig a rheolwyr gan ddefnyddio’r data perfformiad sydd ar gael a chynnydd prosiectau mawr. Wedi hynny, mae uwch aelodau o staff ac Aelodau etholedig yn herio datganiad sefyllfa’r gwasanaeth ac yn galluogi’r swyddogion i bennu perfformiad gwasanaethau yng nghyd-destun risgiau hysbys, a sicrhau bod y cyfarfod herio dilynol yn canolbwyntio ar y materion hynny sydd fwyaf perthnasol. Fel y nodwyd gennym yn Adroddiad Gwella Blynyddol y llynedd, mae’r drefn o herio gwasanaethau yn rhan bwysig o broses hunanwerthuso’r Cyngor, gan alluogi uwch reolwyr ac Aelodau etholedig i ddeall yn well pa mor dda y mae pob gwasanaeth yn perfformio yn erbyn targedau ac yn y cyd-destun cenedlaethol, ac i nodi’r hyn sydd angen ei wneud mewn meysydd nad ydynt yn perfformio cystal.

70 Mae’r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran adrodd ar welliant o dan y Mesur a daeth **Tystysgrif Asesiad Gwella** yr Archwilydd Cyffredinol ym mis Tachwedd 2014 (Atodiad 3) i’r casgliad bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran adrodd ar welliant o dan y Mesur. Yn benodol:

- a roedd y Cyngor wedi cyhoeddi asesiad o’i berfformiad yn ystod 2013-14 yn ei **Adroddiad Perfformiad Blynyddol ar gyfer 2013-14** (yr Adroddiad) cyn 31 Hydref 2014;
- b roedd yr Adroddiad yn asesu perfformiad y Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol (2013-14) ac yn nodi sut roedd y Cyngor wedi ceisio cyflawni ei ddyletswyddau o dan y Mesur;
- c roedd yr Adroddiad yn gwerthuso llwyddiant y Cyngor o ran cyflawni ei amcanion gwella ac yn mynegi ei farn yn glir;
- ch roedd yr Adroddiad yn cynnwys adran fer i ddinasyddion a oedd am roi adborth neu wneud sylwadau ar yr Adroddiad;
- d roedd yr Adroddiad yn cynnwys manylion am berfformiad a chymariaethau fel y’u mesurwyd gan y dangosyddion perfformiad statudol cenedlaethol; ac
- dd roedd yr Adroddiad yn cynnwys adran fer ar y ffyrdd yr oedd y Cyngor wedi ceisio cydweithredu.

# Atodiad 1 – Statws yr adroddiad hwn

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal asesiad gwella blynyddol, a chyhoeddi adroddiad gwella blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae'r gofyniad hwn yn cwmpasu cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan staff Swyddfa Archwilio Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 o'r Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 19 i gyflwyno adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal asesiad gwella o dan adran 18 ac yn nodi a yw o'r farn, o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17, fod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio gwelliant o dan adran 15.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau'. Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Yr asesiad gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Mae'r asesiad gwella yn asesiad sy'n edrych i'r dyfodol o'r tebygolrwydd y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Mae hefyd yn cynnwys asesiad ôl-weithredol i nodi a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llunio barn ar hanes yr awdurdod o ran sicrhau gwelliant. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi ei waith archwilio ac asesu mewn adroddiad gwella blynyddol cyhoeddedig ar gyfer pob awdurdod (o dan adran 24).

O dan rai amgylchiadau, gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), y cyflwynir adroddiad arnynt i'r awdurdod a'r Gweinidogion, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Un o weithgareddau atodol pwysig yr Archwilydd Cyffredinol yw cydgysylltu gwaith asesu a gwaith rheoliadol (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

# Atodiad 2 – Archwiliad o Gynllun Gwella 2014-15 Cyngor Sir Ddinbych

## Tystysgrif

Ardystiaf fy mod wedi archwilio Cynllun Gwella Cyngor Sir Ddinbych (y Cyngor) yn unol ag adran 17 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) a'm Cod Ymarfer Archwilio.

O ganlyniad i'm harchwiliad, rwyf o'r farn bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 15(6) i (9) o'r Mesur ac wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

## Priod gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Archwilydd Cyffredinol

O dan y Mesur, mae'n ofynnol i'r Cyngor baratoi a chyhoeddi Cynllun Gwella sy'n disgrifio ei gynlluniau i gyflawni ei ddyletswyddau i:

- wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni ei swyddogaethau;
- gwneud trefniadau i sicrhau y caiff ei amcanion gwella eu cyflawni; a
- gwneud trefniadau i arfer ei swyddogaethau er mwyn sicrhau y cyrhaeddir unrhyw safon perfformiad a nodir gan Weinidogion Cymru.

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi ei Gynllun Gwella cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol ar ôl dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi, neu ar ôl y cyfryw ddyddiad arall ag y gall Gweinidogion Cymru ei nodi drwy orchymyn.

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am baratoi'r Cynllun Gwella ac am y wybodaeth a nodir ynddo. Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ystyried canllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru wrth baratoi a chyhoeddi ei gynllun.

Fel archwilydd y Cyngor mae'n ofynnol i mi, o dan adrannau 17 a 19 o'r Mesur, archwilio'r Cynllun Gwella, ardystio fy mod wedi gwneud hynny, a chadarnhau a wyf yn credu bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau i baratoi a chyhoeddi Cynllun Gwella yn unol â gofynion statudol a nodir yn adran 15 ac mewn canllawiau statudol.

## Cwmpas yr archwiliad o'r Cynllun Gwella

At ddibenion fy ngwaith archwilio, ar yr amod bod awdurdod yn bodloni ei ofynion statudol, byddaf yn derbyn ei fod hefyd wedi cydymffurfio â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

Ar gyfer yr archwiliad hwn nid yw'n ofynnol i mi lunio barn ar gyflawnrwydd na chywirdeb y wybodaeth nac ar b'un a ellir cyflawni'r Cynllun Gwella a gyhoeddwyd gan y Cyngor. Efallai y bydd gwaith asesu arall y byddaf yn ei wneud o dan adran 18 o'r Mesur yn ystyried y materion hyn. Felly, roedd fy archwiliad o Gynllun Gwella'r Cyngor yn cynnwys adolygu'r cynllun er mwyn nodi a oedd yn cynnwys elfennau a ragnodir mewn deddfwriaeth. Asesais hefyd a oedd y trefniadau ar gyfer cyhoeddi'r cynllun yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth ac a oedd y Cyngor wedi ystyried canllawiau statudol wrth baratoi a chyhoeddi ei gynllun.

Ni ellir dibynnu ar y gwaith a wnaed gennyf er mwyn cyflwyno adroddiadau a gwneud argymhellion yn unol ag adrannau 17 a 19 o'r Mesur yn unig i nodi pob gwendid neu gyfle i wella.

Huw Vaughan Thomas
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

COPI I: Lesley Griffiths, Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth
Huw Lloyd Jones, Rheolwr, Swyddfa Archwilio Cymru
Gwilym Bury, Arweinydd Archwilio Perfformiad, Swyddfa Archwilio Cymru

# Atodiad 3 – Archwiliad o Asesiad Cyngor Sir Ddinbych o Berfformiad 2013-14

## Tystysgrif

Ardystiaf fy mod wedi archwilio asesiad Cyngor Sir Ddinbych (y Cyngor) o'i berfformiad yn 2013-14 yn unol ag adran 17 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) a'm Cod Ymarfer Archwilio.

O ganlyniad i'm harchwiliad, rwyf o'r farn bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adrannau 15(2), (3), (8) a (9) o'r Mesur ac wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

## Priod gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Archwilydd Cyffredinol

O dan y Mesur, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi asesiad bob blwyddyn sy'n disgrifio ei berfformiad o ran:

- cyflawni ei ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau;
- cyflawni'r amcanion gwella y mae wedi'u pennu iddo'i hun;
- drwy gyfeirio at ddangosyddion perfformiad a nodir gan Weinidogion Cymru a dangosyddion perfformiad hunanosodedig; a
- chyrraedd unrhyw safonau perfformiad a nodir gan Weinidogion Cymru a safonau perfformiad hunanosodedig.

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi ei asesiad cyn 31 Hydref yn y flwyddyn ariannol sy'n dilyn y flwyddyn ariannol y mae'r wybodaeth yn ymwneud â hi, neu erbyn y cyfryw ddyddiad arall ag y gall Gweinidogion Cymru ei nodi drwy orchymyn.

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ystyried canllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru wrth gyhoeddi ei asesiad.

Fel archwilydd y Cyngor, mae'n ofynnol i mi, o dan adrannau 17 a 19 o'r Mesur, gynnal archwiliad er mwyn nodi a yw'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswydd i gyhoeddi asesiad o berfformiad, ardystio fy mod wedi gwneud hynny, a chyflwyno adroddiad i nodi a wyf o'r farn bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau yn unol â'r gofynion statudol a nodir yn adran 15 a chanllawiau statudol.

## Cwmpas yr archwiliad

At ddibenion fy ngwaith archwilio, ar yr amod bod awdurdod yn bodloni ei ofynion statudol, byddaf yn derbyn ei fod hefyd wedi cydymffurfio â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

Ar gyfer yr archwiliad hwn nid yw'n ofynnol i mi lunio barn ar gyflawnrwydd na chywirdeb y wybodaeth. Efallai y bydd gwaith asesu arall y byddaf yn ei wneud o dan adran 18 o'r Mesur yn ystyried y materion hyn. Felly, roedd fy archwiliad o asesiad y Cyngor o'i berfformiad yn cynnwys adolygu cyhoeddiad y Cyngor er mwyn nodi a oedd yn cynnwys elfennau a ragnodir mewn deddfwriaeth. Asesais hefyd a oedd y trefniadau ar gyfer cyhoeddi'r asesiad yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth ac a oedd y Cyngor wedi ystyried canllawiau statudol wrth ei baratoi a'i gyhoeddi.

Ni ellir dibynnu ar y gwaith a wnaed gennyf er mwyn cyflwyno adroddiadau a gwneud argymhellion yn unol ag adrannau 17 a 19 o'r Mesur yn unig i nodi pob gwendid neu gyfle i wella.

Huw Vaughan Thomas
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

CC: Leighton Andrews, y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus
Huw Lloyd Jones, Rheolwr, Swyddfa Archwilio Cymru
Gwilym Bury , Arweinydd Archwilio Perfformiad, Swyddfa Archwilio Cymru

# Atodiad 4 – Llythyr Archwilio Blynyddol

Y Cynghorydd Hugh  Evans - Arweinydd
Dr. Mohammed Mehmet - Prif Weithredwr
Cyngor Sir Ddinbych
Neuadd y Sir
Ffordd Wynnstay
Rhuthun
Sir Ddinbych
LL15 1YN

Annwyl Gynghorydd Evans  a Dr Mehmet

**Llythyr Archwilio Blynyddol – Cyngor Sir Ddinbych 2013-14**

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r prif negeseuon sy'n deillio o'm cyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 fel Archwilydd Penodedig a'm cyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

## Cydymffurfiodd y Cyngor â'i gyfrifoldebau yn ymwneud ag adroddiadau ariannol a defnyddio adnoddau

Cyfrifoldeb Cyngor Sir Ddinbych (y Cyngor) yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad Cyfrifon yn unol â gofynion perthnasol; a
- sefydlu ac adolygu'n barhaus drefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau; a
- rhoi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r broses o archwilio'r cyfrifon.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn paratoi eu datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Cod hwn yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Ar 30 Medi 2014, rhoddais farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa a thrafodion ariannol y Cyngor. Mae fy adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad Cyfrifon. Nodwyd y materion allweddol a oedd yn deillio o'r archwiliad o gyfrifon i aelodau o'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn fy adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol ar 29 Medi 2014. Roedd yr adroddiad hwn hefyd yn cynnwys nifer o faterion ychwanegol er mwyn helpu'r Cyngor i atgyfnerthu ei systemau rheolaeth fewnol ymhellach.

## Rwy'n fodlon bod gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau

Mae fy ystyriaeth o drefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi'i seilio ar y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon ac rwyf hefyd wedi dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd fel rhan o'r Asesiad Gwella o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn tynnu sylw at y meysydd lle nad yw effeithiolrwydd y trefniadau hyn wedi'i brofi eto neu lle y gellid gwneud gwelliannau pan fydd yn cyhoeddi ei Adroddiad Gwella Blynyddol.

Cyhoeddais dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o'r cyfrifon wedi'i gwblhau ar 30 Medi 2014.

## Nid yw'r gwaith a wnaed gennyf hyd yma yn ardystio hawliadau a ffurflenni grant wedi nodi materion sylweddol a fyddai'n effeithio ar gyfrifon 2014-15 na systemau ariannol allweddol

Nid yw'r gwaith a wnaf yn ardystio hawliadau a ffurflenni grant wedi nodi materion sylweddol hyd yma mewn perthynas â'r cyfrifon a/neu systemau ariannol allweddol. Byddaf yn rhoi gwybod i'r Pennaeth Cyllid am unrhyw faterion allweddol unwaith y bydd rhaglen gwaith ardystio eleni wedi'i chwblhau.

Ar hyn o bryd, disgwylir i'r ffi archwilio ariannol ar gyfer 2013-14 fod yn unol â'r ffi y cytunwyd arni a nodir yn yr Amlinelliad o'r Archwiliad Blynyddol.

Yn gywir

Derwyn Owen
**Dros ac ar ran yr Archwilydd Penodedig**

# Atodiad 5 – Argymhellion adroddiadau cenedlaethol 2014-15

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad | |
|---|---|---|---|
| Mai 2014 | Craffu Da? Cwestiwn Da! | A1 | Egluro rôl aelodau gweithredol ac uwch swyddogion wrth gyfrannu at y broses graffu. |
| | | A2 | Sicrhau bod aelodau craffu, ac yn benodol cadeiryddion craffu, yn cael hyfforddiant a chymorth er mwyn sicrhau eu bod yn meddu ar yr holl sgiliau sydd eu hangen i gynnal gwaith craffu effeithiol. |
| | | A3 | Datblygu prosesau blaenraglennu craffu ymhellach er mwyn:<br>• darparu rhesymeg glir dros ddewis pynciau;<br>• canolbwyntio mwy ar ganlyniadau;<br>• sicrhau y defnyddir y dull craffu mwyaf addas ar gyfer y maes pwnc a'r canlyniad dymunol; a<br>• chysoni rhaglenni craffu â threfniadau rheoli perfformiad, hunanwerthuso a gwella'r cyngor. |
| | | A4 | Sicrhau bod gwaith craffu yn defnyddio gwaith archwilio, arolygu a rheoleiddio yn effeithiol a bod ei weithgareddau yn ategu gwaith cyrff adolygu allanol. |
| | | A5 | Sicrhau y caiff effaith craffu ei gwerthuso'n briodol ac y gweithredir arni er mwyn gwella effeithiolrwydd y swyddogaeth; gan gynnwys gwneud gwaith dilynol ar gamau gweithredu arfaethedig ac archwilio canlyniadau. |
| | | A6 | Cynnal hunanwerthusiadau rheolaidd o drefniadau craffu gan ddefnyddio 'canlyniadau a nodweddion trefniadau trosolwg a chraffu effeithiol i lywodraeth leol' a ddatblygwyd gan Rwydwaith Swyddogion Craffu Cymru. |
| | | A7 | Rhoi cynlluniau gweithredu ar gyfer gwella craffu ar waith yn seiliedig ar astudiaeth wella Swyddfa Archwilio Cymru. |
| | | A8 | Mabwysiadu 10 Egwyddor Cyfranogaeth Cymru ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd wrth wella'r ffordd y mae'r swyddogaeth graffu yn ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad | |
|---|---|---|---|
| Gorffennaf 2014 | Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant - Canfyddiadau adolygiad o gynghorau yng Nghymru | A1 | Ynghyd â phartneriaid, mapio ac adolygu'r gwariant ar wasanaethau NEET er mwyn deall yn well pa adnoddau sydd eu hangen i gyflawni'r Fframwaith. |
| | | A2 | Egluro eu dull strategol o ostwng cyfran y bobl ifanc 19-24 oed sy'n NEET yn ogystal â'u dull ar gyfer pobl ifanc 16-18 oed. |
| | | A3 | Canolbwyntio ar bobl ifanc sy'n wynebu rhwystrau sylweddol neu luosog i ymgysylltu ag addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant yn hytrach na'r rhai sy'n fwy tebygol o ailymgysylltu heb lawer o gymorth ychwanegol. |
| | | A4 | Datblygu eu hamcanion a'u targedau ar gyfer lleihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET fel bod modd eu dwyn i gyfrif ac fel bod eu gwaith yn gyson â thargedau ac amcanion Llywodraeth Cymru. |
| | | A5 | Sicrhau bod aelodau etholedig a phartneriaid yn deall yn llwyr fod gan gynghorau gyfrifoldeb clir i arwain a chydgysylltu gwasanaethau ieuenctid i bobl ifanc 16-24 oed. |
| | | A6 | Gwella prosesau i werthuso effeithiolrwydd a gwerth am arian cymharol y gwasanaethau a'r ymyriadau yn eu hardal y bwriedir iddynt helpu i ostwng cyfran y bobl ifanc sy'n NEET. |


| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad | |
|---|---|---|---|
| Hydref 2014 | Cyflawni â llai - yr effaith ar wasanaethau iechyd yr amgylchedd a dinasyddion | A1 | Diwygio'r safonau arfer gorau er mwyn:<br>• cysoni gwaith ym maes iechyd yr amgylchedd â blaenoriaethau strategol cenedlaethol;<br>• nodi cyfraniad ehangach iechyd yr amgylchedd at gyflawni blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru; a<br>• nodi buddiannau ac effaith gwasanaethau iechyd yr amgylchedd o ran diogelu dinasyddion. |
| | | A2 | Rhoi'r sgiliau a'r cymorth sydd eu hangen ar gadeiryddion ac aelodau pwyllgorau craffu i graffu ar berfformiad gwasanaethau, cynlluniau arbed ac effaith gostyngiadau cyllidebol a'u herio'n effeithiol. |
| | | A3 | Ymgysylltu'n well â thrigolion lleol ynghylch cynlluniau i dorri cyllidebau a newid gwasanaethau drwy:<br>• ymgynghori â thrigolion ar newidiadau arfaethedig mewn gwasanaethau a defnyddio'r canfyddiadau i lywio penderfyniadau;<br>• amlinellu pa wasanaethau a gaiff eu torri a sut y bydd y toriadau hyn yn effeithio ar drigolion; a<br>• nodi cynlluniau i gynyddu taliadau neu newid safonau gwasanaeth. |
| | | A4 | Gwella effeithlonrwydd a gwerth am arian drwy:<br>• Nodi dyletswyddau statudol ac anstatudol gwasanaethau iechyd yr amgylchedd cynghorau.<br>• Cytuno ar flaenoriaethau iechyd yr amgylchedd ar gyfer y dyfodol a rôl cynghorau wrth gyflawni'r rhain.<br>• Pennu 'safon dderbyniol o berfformiad' ar gyfer gwasanaethau iechyd yr amgylchedd (uchaf ac isaf) a rhoi cyhoeddusrwydd iddynt ymhlith dinasyddion.<br>• Gwella effeithlonrwydd a chynnal perfformiad ar y lefel y cytunwyd arni drwy wneud y canlynol:<br>– cydweithio a/neu integreiddio ag eraill er mwyn lleihau costau a/neu wella ansawdd;<br>– gosod gwasanaethau ar gontractau allanol lle y gellir eu darparu mewn ffordd fwy cost-effeithiol yn unol â'r safonau y cytunwyd arnynt;<br>– cyflwyno a/neu gynyddu taliadau a chanolbwyntio ar weithgarwch sy'n cynhyrchu incwm;<br>– defnyddio grantiau mewn ffordd strategol er mwyn sicrhau'r effaith a'r elw mwyaf; a<br>– lleihau gweithgareddau er mwyn canolbwyntio ar flaenoriaethau statudol a strategol craidd. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad | |
|---|---|---|---|
| Hydref 2014 | Cyflawni â llai - yr effaith ar wasanaethau iechyd yr amgylchedd a dinasyddion | A5 | Gwella gwaith cynllunio strategol drwy:<br>• nodi, casglu a dadansoddi data ariannol, data ar berfformiad a data ar alw/angen mewn perthynas â gwasanaethau iechyd yr amgylchedd;<br>• dadansoddi data a gasglwyd er mwyn llywio a deall y gydberthynas rhwng 'cost: budd: effaith' a defnyddio'r wybodaeth hon i ategu penderfyniadau ar ddyfodol gwasanaethau iechyd yr amgylchedd cyngor; a<br>• chytuno sut y gellir defnyddio gwybodaeth ddigidol i gynllunio a datblygu gwasanaethau iechyd yr amgylchedd yn y dyfodol. |
| Ionawr 2015 | Rheoli Effaith Diwygiadau Lles ar Denantiaid Tai Cymdeithasol yng Nghymru | A1 | Gwella prosesau cynllunio strategol a chydgysylltu gweithgarwch yn well er mwyn mynd i'r afael ag effaith y diwygiadau lles ar denantiaid tai cymdeithasol drwy sicrhau bod cynlluniau gweithredu cynhwysfawr ar waith sy'n ymdrin â gwaith holl adrannau perthnasol cynghorau, cymdeithasau tai a gwaith rhanddeiliaid allanol. |
| | | A2 | Gwella trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd am ddiwygiadau lles drwy wneud y canlynol:<br>• penodi aelodau a swyddogion arweiniol i gymryd cyfrifoldeb am ddarparu arweiniad strategol mewn perthynas â'r diwygiadau lles a bod yn atebol am berfformiad; a<br>• sicrhau bod aelodau yn cael hyfforddiant digonol a briffiau rheolaidd ar y diwygiadau lles er mwyn gallu herio perfformiad a phenderfyniadau a chraffu arnynt. |
| | | A3 | Sicrhau bod perfformiad o ran y diwygiadau lles yn cael ei reoli'n effeithiol drwy wneud y canlynol:<br>• pennu mesurau priodol i alluogi aelodau, swyddogion a'r cyhoedd i lunio barn ar gynnydd wrth gyflawni camau gweithredu;<br>• sicrhau bod gwybodaeth am berfformiad yn ymdrin â gwaith yr holl asiantaethau perthnasol ac yn enwedig y cymdeithasau tai; a<br>• phennu mesurau i lunio barn ar effaith ehangach y diwygiadau lles. |
| | | A4 | Atgyfnerthu'r ffordd y caiff risgiau o ran y diwygiadau lles eu rheoli drwy greu un dull corfforaethol o weithredu sy'n cydgysylltu gweithgarwch ar draws y cyngor a gwaith gan eraill er mwyn rhoi digon o sicrwydd bod yr holl gamau angenrheidiol a phriodol i liniaru risg yn cael eu cymryd. |


| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad | |
|---|---|---|---|
| Ionawr 2015 | Rheoli Effaith Diwygiadau Lles ar Denantiaid Tai Cymdeithasol yng Nghymru | A5 | Ymgysylltu'n well â thenantiaid sydd wedi colli'r cymhorthdal ystafell sbâr drwy wneud y canlynol:<br>• darparu cyngor a gwybodaeth reolaidd am yr opsiynau sydd ar gael iddynt ymdrin ag effaith ariannol y newid yn eu hamgylchiadau;<br>• hyrwyddo llinell gymorth 'Mae budd-daliadau yn newid'; a<br>• chynorthwyo'r tenantiaid hynny sydd wedi colli'r cymhorthdal ystafell sbâr yn benodol i gymryd rhan mewn cynlluniau cyflogaeth rhanbarthol/cenedlaethol. |
| | | A7 | Gwella'r ffordd y caiff Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn eu rheoli a'u defnyddio a gwella mynediad iddynt drwy:<br>• sefydlu polisi neu ganllaw clir i'r cyhoedd, sydd ar gael ar ffurf copi caled ac ar-lein, sy'n nodi polisi a threfniadau'r cyngor ar gyfer gweinyddu Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn;<br>• diffinio'n glir y costau tai cymwys ac anghymwys a gaiff eu cwmpasu gan Daliadau Tai yn ôl Disgresiwn mewn ffurflenni cais, dogfennau polisi a thaflenni canllaw i ymgeiswyr;<br>• nodi'n glir y cyfnodau hwyaf/byrraf posibl y caiff y taliadau hyn eu talu;<br>• pennu a chyhoeddi'r amserlen y bydd yn rhaid i'r cyngor ei dilyn wrth benderfynu ar geisiadau am Daliadau Tai yn ôl Disgresiwn;<br>• cynnwys gwybodaeth mewn deunyddiau cyhoeddus ar bolisi'r cyngor ar yr hawl i adolygu neu apelio yn erbyn penderfyniad a'r amserlenni a'r broses y dylid eu dilyn wrth benderfynu ar y rhain; a<br>• diffinio'n glir y grwpiau â blaenoriaeth ar gyfer Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn mewn deunyddiau cyhoeddus er mwyn sicrhau y gall y rheini sy'n ceisio cymorth, a'r asiantaethau sy'n eu cynorthwyo, asesu p'un a yw'r taliadau hyn yn opsiwn ymarferol i ddiwallu eu hanghenion ariannol a'u hanghenion o ran tai. |

# Appendix 6 – Gwybodaeth am adnoddau Cyngor Sir Ddinbych


## Cyfanswm Incwm Gros 2013-14





## Cyfanswm Incwm a Gwariant




## Nifer y staff cyfwerth ag amser llawn 2010-11 i 2012-13




## Cyfanswm Gwariant Gros yn ôl maes gwasanaeth



Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru